# Deddfwriaeth Acrylamid

Gwybodaeth am y mesurau sy'n ymwneud â lefelau acrylamid mewn bwyd, canllawiau ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd a lefelau meincnod ar gyfer monitro lefelau acrylamid mewn gwahanol gategorïau bwyd.

Mae'n ofynnol i bob gweithredwr busnes bwyd roi camau syml ac ymarferol ar waith i reoli acrylamid o fewn eu systemau rheoli diogelwch bwyd. Mae hyn yn sicrhau bod lefelau acrylamid yn eu bwyd mor isel ag sy'n rhesymol bosibl.

Mae arfer gorau, mesurau lliniaru a lefelau meincnod ar gyfer lleihau presenoldeb acrylamid mewn bwyd wedi'u sefydlu fel y nodir yn:

- Rheoliad yr Undeb Ewropeaidd (UE) 2017/2158 a gymathwyd, ar gyfer Cymru a Lloegr
- Rheoliad yr UE 2017/2158 ar gyfer Gogledd Iwerddon.

Mae Rheoliad 2017/2158 yn sefydlu'r arfer gorau, y mesurau lleihau a’r lefelau meincnod ar gyfer lleihau presenoldeb acrylamid mewn bwyd.

Disgwylir i fusnesau wneud y canlynol:

- bod yn ymwybodol o acrylamid fel perygl diogelwch bwyd a bod â dealltwriaeth gyffredinol o'r ffordd y mae acrylamid yn ffurfio yn y bwyd y maent yn ei gynhyrchu;
- cymryd y camau angenrheidiol i leihau lefel yr acrylamid sy'n ffurfio yn y bwyd y maent yn ei gynhyrchu – mabwysiadu'r mesurau perthnasol fel rhan o'u gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd
- cynnal gwaith samplu a dadansoddi cynrychioladol lle bo'n briodol, i fonitro lefelau acrylamid yn eu cynhyrchion fel rhan o'u hasesiad o'r mesurau lleihau
- cadw cofnodion priodol o'r mesurau lleihau a gynhelir, law yn llaw â chynlluniau samplu a chanlyniadau unrhyw brofion

Mae'r mesurau yn gymesur i natur a maint y busnes, i sicrhau nad yw'n ormod o faich ar fusnesau bach a micro. Mae'r ddeddfwriaeth yn berthnasol i'r holl weithredwyr busnesau bwyd sy'n cynhyrchu'r bwydydd a restrir isod, neu'n eu rhoi ar y farchnad:

- sglodion tenau (*french fries*), cynhyrchion eraill sydd wedi'u torri (a'u ffrio'n ddwfn) a chreision tatws wedi'u sleisio o datws ffres
- creision tatws, byrbrydau, craceri a chynhyrchion tatws eraill o does tatws
- bara
- grawnfwydydd brecwast (ac eithrio uwd)
- mân gynhyrchion siop fara: cwcis, bisgedi, rysgiau, bariau grawnfwyd, sgons, wafferi, crympedi a bara sinsir, yn ogystal â chraceri, bara crensiog a chynhyrchion a ddefnyddir yn lle bara
- coffi: (i) coffi rhost; (ii) coffi parod (hydawdd)
- cynhyrchion a ddefnyddir yn lle coffi
- bwyd babi a grawnfwyd wedi'i brosesu ar gyfer babanod a phlant ifanc

Mae gwahanol ofynion ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd lleol ac annibynnol sy'n gwerthu bwyd yn uniongyrchol i'r defnyddiwr neu i'w fanwerthu'n lleol. Er enghraifft, caffis annibynnol, siopau ’sgod a sglods a bwytai.

Ar gyfer cadwyni mwy a gaiff eu rheoli a'u cyflenwi'n ganolog gyda bwydlenni a gweithdrefnau gweithredu safonol, mae'r ddeddfwriaeth yn adlewyrchu bod modd rheoli'r mesurau acrylamid yn ganolog. Byddai hyn yn berthnasol i, er enghraifft, fwytai, gwestai a chadwyni caffis mawr.

## Mesurau lleihau

Mae'r mesurau lleihau sy'n berthnasol i fusnesau bwyd wedi'u hamlinellu yn yr Atodiadau i'r ddeddfwriaeth. Mae cynnwys y rhain yn deillio o amryw godau ymarfer sydd wedi'u datblygu gan amryw gyrff masnach ar gyfer sectorau penodol sydd wedi ymchwilio i ddulliau o leihau acrylamid mewn gwahanol fwydydd. Ni fwriedir i'r broses o weithredu'r mesurau lleihau acrylamid perthnasol arwain at unrhyw newidiadau sylweddol o ran ansawdd a nodweddion  y bwydydd dan sylw.

## Lefelau meincnod

Mae'r lefelau meincnod wedi'u hamlinellu yn yr Atodiad i'r ddeddfwriaeth. Maent yn ddangosyddion perfformiad generig ar gyfer y categorïau bwyd sy'n dod o dan y Rheoliad. Nid ydynt yn derfynau uchaf ac ni fwriedir iddynt gael eu defnyddio at ddibenion gorfodi. Mae'r lefelau meincnod i'w defnyddio gan weithredwyr busnesau bwyd i fesur llwyddiant y mesurau lleihau.

## Canllawiau

Rydym ni hefyd yn wedi datblygu canllawiau i gynorthwyo awdurdodau lleol wrth weithredu a gorfodi'r gofynion newydd. Mae UKHospitality a chymdeithasau masnach allweddol eraill wedi gweithio gyda ni a Safonau Bwyd yr Alban i ddatblygu canllawiau ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd yn y diwydiant arlwyo a gwasanaeth bwyd.

Mae canllawiau lleihau acrylamid ar gyfer y diwydiant hefyd wedi'u datblygu gan amrywiaeth o sectorau bwyd ar lefel genedlaethol ac ar lefel yr Undeb Ewropeaidd gan gynnwys y pecyn cymorth acrylamid a gynhelir gan Food Drink Europe.

Pwysig

### Cyfeiriadau at ddeddfwriaeth yr UE yng nghanllawiau’r ASB

Nid yw deddfwriaeth sy'n uniongyrchol gymwys i'r UE bellach yn gymwys ym Mhrydain Fawr. Daeth deddfwriaeth yr UE a ddargadwyd pan ymadawodd y DU â’r UE yn gyfraith a gymathwyd ar 1 Ionawr 2024, yn unol â’r hyn a gyhoeddwyd ar legislation.gov.uk. Dylai cyfeiriadau at unrhyw ddeddfwriaeth yng nghanllawiau’r ASB sydd ag ‘UE’ neu ‘CE’ yn y teitl (er enghraifft, Rheoliad (CE) 178/2002) gael eu hystyried yn gyfraith a gymathwyd lle bo hynny’n gymwys i Brydain Fawr. Bellach, dylid ystyried cyfeiriadau at ‘Gyfraith yr UE a Ddargedwir’ neu ‘REUL’ fel cyfeiriadau at gyfraith a gymathwyd.

Yn achos busnesau sy’n symud nwyddau o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon, mae gwybodaeth am Fframwaith Windsor ar gael ar GOV.UK.

Mabwysiadwyd Fframwaith Windsor gan y DU a’r UE ar 24 Mawrth 2023. Mae’r Fframwaith yn darparu set unigryw o drefniadau i gefnogi llif cynhyrchion manwerthu bwyd-amaeth o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon, gan ganiatáu i safonau Prydain Fawr o ran iechyd y cyhoedd mewn perthynas â bwyd, marchnata a deunyddiau organig fod yn gymwys i nwyddau manwerthu wedi’u pecynnu ymlaen llaw a gaiff eu symud drwy Gynllun Symud Nwyddau Manwerthu Gogledd Iwerddon (NIRMS).

**Pwysig**